**Teitl: Cwestiynau Moesegol**

| **Teitlau** | **Gamblo** | **Anghydraddoldeb Rhywedd** | **Cyffuriau** |
|---|---|---|---|
| **Rhesymeg** | **YMWADIAD:** Mae'r Nodiadau i Athrawon wedi'u diweddaru er mwyn gallu defnyddio'r adnodd drwy Gwricwlwm i Gymru. Wedi dweud hynny, mae cynnwys yr erthyglau wedi'i archifo ac nid yw'r wybodaeth wedi'i diweddaru. Mae'r erthyglau yn cael eu cadw ar y wefan gan fod y cynnwys yn parhau i fod yn berthnasol i Gwricwlwm i Gymru: Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.<br><br>**Pedwar diben 'Cwricwlwm i Gymru - Cwricwlwm am Oes'**<br>**Drwy ddysgu am Gwestiynau Moesegol yn y byd fel rhan o'u gwersi addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, bydd cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu yn:**<br>• Ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n gallu egluro'r syniadau a'r cysyniadau maen nhw'n eu dysgu;<br>• Unigolion iach a hyderus sydd â gwerthoedd cadarn ac sy'n sefydlu eu credoau ysbrydol a moesol;<br>• Cyfranogwyr mentrus, creadigol sy'n rhoi o'u hegni a'u sgiliau er budd pobl eraill;<br>• Dinasyddion moesol, dysgedig a fydd yn ymgysylltu â materion cyfoes yn seiliedig ar eu gwybodaeth a'u gwerthoedd.<br><br>**Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn y Cwricwlwm i Gymru**<br>Drwy ddarllen a defnyddio'r erthyglau yn eu gwersi Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, caiff dysgwyr gyfleoedd i:<br><br>• Ymgysylltu â chwestiynau athronyddol a thyngedfennol, a'u harchwilio<br>• Ymgymryd ag ymholiadau ac ymgysylltu â ffynonellau o ddoethineb ac athroniaethau<br>• Datblygu a mynegi eu safbwyntiau dysgedig eu hunain<br>• Defnyddio eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth am safbwyntiau byd-eang crefyddol a heb fod yn grefyddol i feddwl yn feirniadol am eu gwerthoedd eu hunain<br>• Archwilio'r ffyrdd mae argyhoeddiadau athronyddol crefyddol a heb fod yn grefyddol wedi dylanwadu ar brofiad dynol drwy gydol hanes<br>• Gwerthuso amrywiaeth o ffynonellau crefyddol a heb fod yn grefyddol a defnyddio tystiolaeth ohonynt i ymgysylltu â materion moesegol a moesol<br>• Archwilio credoau ac arferion pobl yn eu cymuned, yng Nghymru ac yn y byd ehangach ac ymateb yn sensitif iddynt<br>• Datblygu gwerthoedd cadarn a sefydlu eu credoau moesol a'u hysbrydolrwydd<br>• Trafod eu persbectifau eu hunain a phersbectifau eraill, a myfyrio arnynt | | |

| Teitlau | Gamblo | Anghydraddoldeb Rhywedd | Cyffuriau |
|---|---|---|---|
| | **Y lens Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg**<br>Drwy ddarllen a defnyddio'r erthyglau yn eu gwersi Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, caiff dysgwyr gyfleoedd i archwilio amrywiaeth o gysyniadau yn ymwneud â Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg drwy'r **is-lensys isod:**<br>• Chwilio am ystyr a diben;<br>• Y byd naturiol a phethau byw;<br>• Hunaniaeth a pherthyn;<br>• Awdurdod a dylanwad;<br>• Perthnasoedd a chyfrifoldeb;<br>• Gwerthoedd a moeseg;<br>• Taith bywyd;<br><br>*Noder bod Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn cael eu pennu'n lleol drwy faes llafur cytunedig. Mae gan bob awdurdod lleol ei faes llafur cytunedig ei hun ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg y mae'n rhaid i ysgolion ei ystyried. Mae pob maes llafur sydd wedi'i gytuno wedi ystyried fframwaith y Cwricwlwm i Gymru a chanllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg y cyfeirir atynt uchod ac isod.<br><br>**Dolenni Defnyddiol:**<br><br>**Canllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg - https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/humanities/designing-your-curriculum/#religion,-values-and-ethics-guidance**<br>**Canllawiau Dyniaethau Hwb - https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/humanities**<br>**Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig - https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/humanities/statements-of-what-matters/**<br>**Themâu Trawsgwricwlaidd - https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/humanities/designing-your-curriculum/#cross-cutting-themes** | | |

| Teitlau | Gamblo | Anghydraddoldeb Rhywedd | Cyffuriau |
|---|---|---|---|
| **Geirfa allweddol** | Gamblo - cymryd rhan mewn gêm neu weithgaredd lle mae person yn mentro arian neu eiddo yn y gobaith o ennill arian.<br><br>Caethiwed - mynd i’r arferiad o wneud rhywbeth gan fethu rhoi gorau iddi.<br><br>Ariangarwch – gosod arian a phres fel y peth pwysicaf mewn bywyd.<br><br>Pechod – yr hyn sydd yn ddrwg o safbwynt crefyddol.<br><br>Torah – cyfraith Duw i’r Iddewon / pum llyfr cyntaf y Beibl Iddewig.<br><br>Talmud – casgliad o weithiau sy’n esbonio cyfraith yr Iddewon. | Dharma - dysgeidiaethau'r Bwdha.<br><br>Gwahaniaethu - trin rhai pobl yn wahanol i eraill.<br><br>Dukkha - y ddysgeidiaeth bod bywyd yn anfoddhaol/llawn dioddefaint.<br><br>Goleuedigaeth - trawsnewid i fyd arall o realiti, dianc o gylch bywyd y byd hwn.<br><br>Ffeministiaeth - ymladd dros hawliau cyfartal i ferched.<br><br>Anghydraddoldeb rhywedd - gwahaniaethu ar sail rhyw neu rywedd sy'n achosi i un rhyw neu rywedd gael mantais neu ei flaenoriaethu dros y llall fel mater o drefn.<br><br>Hawliau dynol - hawliau y dylai pob bod dynol eu derbyn.<br><br>Nirfana - rhyddhad llawn o ddioddefaint y byd hwn.<br><br>Cymdeithas batriarchaidd - strwythur cyffredinol lle mae gan ddynion bŵer dros ferched.<br><br>Rhagfarn - barn ragdybiedig nad yw'n seiliedig ar reswm na phrofiad gwirioneddol.<br><br>Sangha - y gymuned Fwdhaidd.<br><br>Sansgrit - iaith Indiaidd hynafol.<br><br>Ysbrydolrwydd - ymwneud â'r ysbryd neu'r enaid dynol yn hytrach na phethau materol neu gorfforol. | Cyffur - unrhyw sylwedd sy’n cael ei gyflwyno i’r corff ac sy’n newid y ffordd y mae’r meddwl a’r corff yn gweithio.<br><br>Rêf – parti bywiog yn cynnwys bwyd a chyffuriau.<br><br>Fix – dôs o gyffur y mae rhywun yn gaeth iddo.<br><br>Dibyniaeth - y cyflwr o fethu gwneud heb ryw sylwedd neu gyffur.<br><br>Mynd yn gaeth - mynd yn gwbl ddibynnol ar ryw gyffur a methu gwneud hebddo (addicted).<br><br>Rastaffariaeth – crefydd a ddatblygodd yn Jamaica yn ystod y 1930au.<br><br>Haile Selassie – Ymerawdwr Ethiopia 1930 – 1974. Mae Rastaffariaid yn credu mai ef yw Duw.<br><br>Ail-genhedlu – y gred pan fydd y corff yn marw mae’r enaid yn cael ei ail-genhedlu i mewn i gorff arall.<br><br>Ganja - enw Rastaffariaid ar y cyffur canabis neu marijuana.<br><br>Rahit Maryada - cod disgyblaeth Sikhiaeth. |

| Teitlau | Gamblo | Anghydraddoldeb Rhywedd | Cyffuriau |
|---|---|---|---|
| | | Swffragetiaid - merched sy'n ceisio'r hawl i bleidleisio drwy brotestio mewn modd sydd wedi'i drefnu.<br><br>Taliban - Grŵp ffwndamentalaidd Islamaidd<br><br>Y Bwdha - sylfaenydd Bwdhaeth<br><br>Y Lotus Sutra - testun Bwdhaidd crefyddol.<br><br>Y Cenhedloedd Unedig - sefydliad rhynglywodraethol a'i ddiben datganedig yw cynnal heddwch a diogelwch rhyngwladol. | Guru Granth Sahib - awdurdod uchaf Sikhiaeth - mae'n cynnwys dysgeidiaeth y deg Guru Sikhiaid.<br><br>Gurmukh – yr enw ar rywun mewn Sikhiaeth sy'n byw yn ôl ewyllys Duw.<br><br>Manmukh - yr enw Sikhiaid am rywun sy'n hunanol ac yn anwybyddu ewyllys Duw.<br><br>Ganges – afon yn India sy'n cael ei hystyried gan lawer o Hindŵiaid a Sikhiaid fel yr afon fwyaf sanctaidd yn y byd.<br><br>Khamr – y gair mewn Islam am unrhywbeth sy'n cymylu'r meddwl.<br><br>Haram – pethau sydd wedi eu gwahardd mewn Islam.<br><br>Taliban – Grŵp ffwndamentalaidd Islamaidd sy'n rheoli Afghanistan ers 2021.<br><br>Heroin – cyffur sy'n cael ei wneud o opiwm.<br><br>Opiwm - cyffur sydd yn y popi opiwn ac sy'n sail i'r cyffur herion. |
| Geirfa | Gamblo | Dharma | Cyffur |

| Teitlau | Gamblo | Anghydraddoldeb Rhywedd | Cyffuriau |
|---|---|---|---|
| | Caethiwed<br>Ariangarwch<br>Pechod<br>Torah<br>Talmud<br>Synagog | Gwahaniaethu<br>Dukkha<br>Goleuedigaeth<br>Ffeministiaeth<br>Anghydraddoldeb rhywedd<br>Hawliau Dynol<br>Nirfana<br>Rhagfarn<br>Sangha<br>Sansgrit<br>Ysbrydolrwydd<br>Swffragetiaid<br>Y Taliban<br>Y Bwdha<br>Y Lotus Sutra<br>Y Cenhedloedd Unedig | Rêf<br>Fix<br>Dibyniaeth<br>Mynd yn gaeth<br>Rastaffariaeth<br>Haile Selassie<br>Marcus Garvey<br>Bob Marley<br>Reggae<br>Ail-genhedlu<br>Ganja<br>Canabis<br>Heroin<br>Sikhiaeth<br>Rahit Maryada<br>Guru Granth Sahib |

| Teitlau | Gamblo | Anghydraddoldeb Rhywedd | Cyffuriau |
|---|---|---|---|
| | | | Gurmukh<br><br>Manmukh<br><br>Ganges<br><br>Islam<br><br>Mwslim<br><br>Khamr<br><br>Haram<br><br>Afghanistan<br><br>Sharia<br><br>Taliban<br><br>Heroin<br><br>Opiwm |
| **Tasgau** ymestynnol | Pwy sy'n medru ymateb yn fwyaf effeithiol i gwestiynau moesol? Yr amrywiol grefyddau neu awdurdodau eraill | | |
| Tasgau dosbarth | 1. Ymchwiliwch i'r ffordd y mae chwaraeon yn cael eu noddi gan gwmnïoedd gamblo. Gallwch ganolbwyntio ar un maes e.e. pêl-droed proffesiynol. Pa newidiadau sydd ar fin | Gwelir y tasgau ar waelod y ddogfen. | 1. Ymchwiliwch ymhellach i gredoau ac arferion Rastaffariaeth a pharatowch gyflwyniad 2 funud i weddill y dosbarth.<br>2. Lluniwch fywgraffiad o Marcus Garvey a neu Bob Marley. |

| **Teitlau** | **Gamblo** | **Anghydraddoldeb Rhywedd** | **Cyffuriau** |
|---|---|---|---|
| | digwydd o ran hysbysebu gamblo yn y maes yma?<br>2. Mae llawer o hysbysebu ar y teledu a noddi rhaglenni yn dod o gwmnïoedd gamblo erbyn hyn. Chwiliwch am enghreifftiau gan drafod a ydy hyn yn dderbyniol.<br>3. Casglwch ychydig o wybodaeth am 'Gamblers Anonymous'. Pa waith da sydd yn cael ei wneud ganddynt hwy ac eraill i helpu'r sawl sy'n gaeth i gamblo yng Nghymru?<br>4. Lluniwch dabl gyda dwy golofn: Peryglon Gamblo / Manteision gamblo i'r economi ac i elusennau.<br>5. Ysgrifennwch lythyr at eich cyngor lleol yn gwrthwynebu sefydlu rhyw fath o loteri i godi arian ychwanegol ar gyfer gwaith y cyngor, e.e. cynnal ysgolion a lonydd.<br>6. Erbyn heddiw diolch i'r We, mae'n bosib gamblo'n rhwydd iawn unrhyw le ac unrhyw amser. Sut mae Cristnogion ac Iddewon wedi ymateb i hyn? | | 3. Gwrandewch ar rai o ganeuon Bob Marley – pa syniadau crefyddol a fynegir yn y caneuon hynny.<br>4. Lluniwch ddiagram Venn i ddangos yr hyn sy'n debyg a'r hyn sy'n wahanol yn agwedd y dair crefydd tuag at y defnydd o gyffuriau.<br>5. Ymchwiliwch ymhellach i'r hyn sy'n digwydd yn Afghanistan a lluniwch adroddiad newyddion o'r wlad yn cyflwyno'r sefyllfa ynglŷn â'r fasnach opiwm.<br>6. Cynlluniwch hawl i holi teledu gyda thri ar y panel yn ateb cwestiynau am eu hagwedd tuag at gyffuriau - un yn Sikh, un yn Rastaffari a'r llall yn Fwslim.<br>7. Trafodaeth grŵp/dosbarth - ' Ni ddylid byth gwneud cyffuriau fel canabis yn gyfreithlon.' Neu 'Nid oes unrhyw wahaniaeth rhwng canabis ag alcohol.' |
| **Adnoddau pellach** | | | |

| Teitlau | Gamblo | Anghydraddoldeb Rhywedd | Cyffuriau |
|---|---|---|---|
| | | | |

Tasg 1: Cyfatebwch y term allweddol i'r diffiniad cywir

| | |
|---|---|
| Dharma | Trawsffurfio i fyd arall o realiti, dianc o gylch bywyd y byd hwn. |
| Goleuedigaeth | Rhyddhad llawn o ddioddefaint y byd hwn. |
| Dukka | Hen iaith Indiaidd. |
| Nirfana | Y ddysg bod bywyd yn anfoddhaol/llawn dioddefaint. |
| Sansgrit | Dysgeidiaeth y Bwdha. |

Tasg 2: Defnyddiwch eich gwybodaeth o'r erthygl i lenwi'r rhes Bwdhaeth.

- Ar gyfer crefyddau eraill, ymchwiliwch i sut mae merched yn cael eu gweld yn hanesyddol a'u trin heddiw (gall yr athro benderfynu a ydyn nhw'n defnyddio'r rhyngrwyd, llyfrau ac ati). Os nad ydych yn siŵr, gadewch rai rhesi yn wag i'w trafod yn nes ymlaen.

| **Crefydd** | **Sut oedd Merched yn Cael eu Gweld yn Hanesyddol?** | **Sut mae Merched yn Cael eu Gweld Heddiw?** |
|---|---|---|
| **Bwdhaeth** | (Enghraifft: Gallai merched ymuno â'r Sangha ond roedd yna wrthwynebiad) | (Enghraifft: Ni ellir ordeinio rhai ohonynt fel mynachod o hyd) |
| **Cristnogaeth** | | |
| **Islam** | | |
| **Iddewiaeth** | | |

Tasg 4: Cwestiynau Myfyrio

- Pa debygrwydd neu wahaniaethau ydych chi'n sylwi arnyn nhw rhwng crefyddau o ran sut maen nhw'n trin merched?

- Ydych chi'n credu bod Bwdhaeth yn fwy neu'n llai cyfartal o'i gymharu â chrefyddau eraill? Pam?

- Pam ydych chi'n credu bod anghydraddoldeb rhywedd yn dal i fodoli mewn llawer o grefyddau a chymdeithasau?

Tasg 5: Addewid Cydraddoldeb

Ysgrifennwch un weithred y credwch allai wella tegwch i bawb:

